



**Cwmni:** S4C  
**Rol Prentis:** Llwyfan Digidol  
**Lleoliad:** Pencadlys S4C, Yr Egin, Caerfyrddin

## **S4C**

Mae S4C yn darparu gwasanaeth teledu ac ar-lein drwy'r iaith Gymraeg. Mae S4C yn ddarllledwr-gyhoeddwr sy'n comisiynu 1,700 awr o gynnwys gwreiddiol bob blwyddyn o'r sector gynhyrchu annibynnol, sy'n cael ei ddarlledu ynghyd ag isafswm o 520 o oriau a gynhyrchir ar gyfer y gwasanaeth gan BBC Cymru. Mae S4C yn adlewyrchu amrywiaeth o fewn cymdeithas yng Nghymru ac o fewn y gynulleidfa Gymraeg.

Mae gwasanaeth teledu S4C ar gael ar Freeview ledled Cymru a hefyd ar lwyfannau Sky, Freesat, Virgin Media a YouView ar draws y DU. Mae gwasanaeth S4C Arlein hefyd ar gael ledled y DU a, lle bo hawliau'n caniatáu, ar sail fyd eang. Mae cynnwys S4C ar gael ar iPlayer ar ystod o ddyfeisiau.

## **Swydd disgrifiad**

Rydym yn chwilio am brentis i weithio gyda'r tîm Digidol. Mae'r adran yn creu cynnwys er mwyn ei osod ar ffrydiau cyfryngau cymdeithasol S4C (Facebook, Twitter, Snapchat, Instagram) er mwyn gwneud gosodiad am frand S4C (yn y cyd-destun yma: chwareus, agos atoch, ifanc, yn gwneud y defnydd gorau o sianelau cyfathrebu digidol). Yn ogystal mae'r adran yn gyfrifol am ymgymryd â'r gwaith datblygu sydd wedi'i grisialu yn rhan o strategaeth ddigidol S4C. Yn bennaf, mae'r gwaith hwn yn ymwneud â datblygu Chwaraewr Clic S4C, gan wella profiad y defnyddiwr a chyflwyno nodweddion newydd.

Prif ddyletswyddau'r rôl yw:

- Cynorthwyo'r tîm wrth iddynt greu deunydd penodol ar gyfer digwyddiadau / ymgyrchoedd hyrwyddo dros y cyfryngau cymdeithasol drwy'r holl gamau; o gynllunio i ddadansoddi.
- Cynorthwyo'r tîm wrth iddynt is-deitlo fideos Cyfryngau Cymdeithasol S4C.
- Cynorthwyo'r adran i greu GIF's o ymatebion gwahanol gan gymeriadau/cyflwynwyr rhaglenni gan gyflwyno'n cynnwys mewn ffordd wahanol.
- Adeiladu bas data o GIF's o gynnwys S4C a allai gael eu defnyddio fel ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau e.e. Eira mawr.
- Cadw golwg ar ddigwyddiadau mawr sydd yn digwydd yn y byd e.e. Cwpan y Byd Pêl Droed, Gemau Olympaidd/Gymanwlad, Eisteddfod, Glastonbury – pethau a phroffil uchel y mae pawb yn ymwybodol ohonynt, a fyddai'n galluogi ni i ymateb i'r hyn sy'n digwydd gan glymu mewn gyda'n cynnwys ni mewn ffordd ysgafn, sydd yn annog ymgysylltu.
- Ar gyfer nifer o ddyddiadau penodol yn ystod y flwyddyn e.e. Sul y Mamau/Tadau, Dydd Gwyl Dewi, awgrymu cynnwys digidol arbennig i'w rannu ar unrhyw blatfform sydd yn gweddu. Gellid defnyddio unrhyw ffurf ddigidol sydd yn gweddu i'r syniad e.e. cwis, pleidlais, sain, fideo neu luniau llonydd i gynhyrchu elfen wreiddiol ddiddorol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Llwyfan wrth ymgasglu a churadu cynnwys, wrth sicrhau bod yr holl gliriadau cyfreithiol cywir yn eu lle.
- Cynorthwyo'r tîm gyda chofnodi data i helpu datblygu strategaethau marchnata a yrrir gan ddata a gwerthusiadau ymgyrchu.

- Gweithio gyda Gwasanaethau Llyfrgell S4C er mwyn adnabod a chyflwyno cynnwys o Archif S4C ar Glic.
- Cynorthwyo'r tîm gydag adolygu ac addasu cynnwys er mwyn ymateb i newyddion a digwyddiadau gyda chynnwys perthnasol a phriodol.
- Cynorthwyo'r tîm wrth weithio'n agos gyda'r Tîm Data a Dadansoddi a'r Comisiynydd Cynnwys Digidol er mwyn deall patrymau gwyllo ein cynulleidfa.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Llwyfan wrth weithio gyda thîm BBC iPlayer er mwyn hyrwyddo cynnwys S4C i'r eithaf.
- Cynorthwyo gyda gofynion technegol ar gyfer rhaglenni gwe a gwefannau neu ddiweddariadau S4C

Mi fydd disgwyl i chi

- Gyfrannu i syniadau creadigol.
- Weithio o fewn canllawiau brand S4C ac unrhyw is-frandiau S4C (Mi wnawn ni rhoi'r rhain i chi)
- Weithio o fewn amserlenni tynn.
- Gyfathrebu a chydlynu'n effeithiol gyda gwahanol adrannau o fewn S4C.

Yn ystod y cynllun 15 mis, byddwch yn cael hyfforddiant ymarferol sy'n berthnasol i'r swydd, wrth astudio tuag at gymhwyster Cyfryngau Creadigol a Digidol Lefel 4 (Llwybr Cyfryngau Rhwydweithiol), sy'n cael ei ddarparu gan y darparwr dysgu, Sgil Cymru. Mae prentisiaeth lefel 4 yn cyfateb i flwyddyn gyntaf yn brifysgol. Gall unrhyw un sy'n 18 + oed pan fyddant yn dechrau, ac nad oes ganddynt radd raddedig ymgeisio.

**This is an advert for a Digital Apprentice for which the ability to communicate in Welsh and English is essential.**

**Bydd angen i chi fod ar gael ar gyfer cyfweiliad rhwng 14-16 Awst 2019.**

#### Manyleb person

| Nodweddion                  | Hanfodol  | Dymunol  |
|-----------------------------|---|--|
| <b>Cymhwysterau</b>         | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ddelfrydol bydd gennych chi o leiaf pedwar TGAU, gan gynnwys gradd C neu uwch mewn Saesneg a Mathemateg.</li> </ul>   |  |
| <b>Sgiliau a gwybodaeth</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gyda'r gallu i gyd-weithio ag ystod eang o bobl.</li> <li>• Gyda'r gallu i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth yn gryno ac yn glir.</li> <li>• Gyda'r gallu i gyfathrebu yn rhugl ac effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ysgrifenedig ac ar lafar.</li> <li>• Gyda'r gallu i flaenoriaethu</li> <li>• Gyda sgiliau cyfrifiadurol cryf.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o ddefnyddio pecynnau meddalwedd golygu lluniau fideo.</li> </ul> |

|                            |  |  |
|----------------------------|--|--|
|                            | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diddordeb a dealltwriaeth o gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol (e.e. YouTube, Facebook, Twitter, Instagram, Pinterest).</li> </ul>   |  |
| <b>Nodweddion personol</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Person trefnus a dibynadwy.</li> <li>• Hyblyg ac yn barod i weithio yn unol ag anghenion y prentisiaeth.</li> <li>• Person brwdfrydig sy'n gallu cydweithio'n effeithiol o fewn tîm.</li> <li>• Y gallu i gyfathrebu gyda staff ar bob lefel yn glir, cywir ac effeithiol.</li> </ul> |  |

## Manylion eraill

**Lleoliad:** Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ

**Cyflog:** £12,600 y flwyddyn

**Cytundeb:** 15 mis

**Oriau gwaith:** 35.75. Oriau arferol swyddfa yw 9.00am - 5.15pm ar ddydd Llun i ddydd Iau ac o 9.00am - 4.45pm ar ddydd Gwener.

**Cyfnod prawf:** 6 mis

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn.

**Pensiwn:** Mae hawl gennych ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 3% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

## Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 12:00 y prynhawn ar ddydd Mawrth 23 Gorffennaf 2019 at [adnoddau.dynol@s4c.cymru](mailto:adnoddau.dynol@s4c.cymru) neu Adnoddau Dynol, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Nid ydym yn derbyn CV.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailibennu rhywedd,

beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.